
TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Lefel A Astudiaethau Ffilm Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o astudiaethau ffilm i'ch galluogi chi i benderfynu ble mae eich angerdd.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych eisiau mynd ymlaen i addysg uwch yn y pwnc

... Ydych eisiau gweithio yn y diwydiant ffilm

... Ydych am gwrs astudio ymarferol a damcaniaethol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol i chi os ydych am fynd ymlaen i addysg uwch, gweithio yn y diwydiant ffilm neu os oes gennych ddiddordeb yn y pwnc. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys astudio nodweddion:

Ffilmiau (yn cynnwys setiau, celfi, gwisgoedd, colur, gwaith camera, goleuo, golygu, sain, perfformio)
Naratif, genre a chynrychioli
Gwahanol lwyfannau gwylio ac ymatebion cynulleidfaoedd i ffilmiau
Diwydiannau ffilm Hollywood a Phrydeinig
Sinema'r byd
Astudiaeth feirniadol ar ffilmiau

Mae'r cwrs Lefel UG yn cynnwys un cynhyrchiad ymarferol, gan eich caniatáu chi i greu sgript, bwrdd stori â ffotograffau, neu ffilm fer.

Mae'r cwrs Lefel U yn dilyn patrwm tebyg, gan eich caniatáu chi i greu cynhyrchiad ymarferol arall (sgript ffilm ar gyfer ffilm ffuglen, sgript ar gyfer rhaglen ddogfen neu ffilm fer) sy'n gysylltiedig â phrosiect ymchwil.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.